## Dyma ychydig o enghreifftiau o blanhigion ac anifeiliaid ymosodol a allai ddod yn broblem ddifrifol yn ein hamgylchedd morol:

### CHWISTRELL FÔR CARPED



Er bod pob chwistrell unigol yn fychan iawn (1 mm o hyd), mae chwistrell fôr carped yn tyfu mewn clystyrau a all ymestyn dros sawl cilomedr. Mae'r clystyrau hyn yn gwthio rhywogaethau morol cynhenid allan ac yn achosi niwsans i bysgotwyr a pherchnogion cychod gan eu bod yn gorchuddio ochr isaf cychod.

### WAKAME



Mae'r gwymon mawr hwn sy'n tyfu'n gyflym yn ffurfio matiau sy'n drifftio ac sy'n gallu tagu marinâu ac ardaloedd hamdden, gorchuddio ochr isaf cychod a strwythurau harbwr, a chystadlu'n llwyddiannus yn erbyn rhywogaethau môr brodorol.

### EWINEDD MOCH



Mae ewinedd moch yn ffurfio cadwyni a staciau a all gynnwys hyd at 15 o unigolion. Gallant lwgu a mygu pysgod cregyn brodorol a bod yn bla difrifol mewn gwelyau wystrys a chregyn glas.

# ATAL YR YMLEDIAD

Gallwch ganfod mwy am blanhigion ac anifeiliaid ymosodol a sut i'w hatal rhag ymledu yn:

**nonnativespecies.org/checkcleandry**

@CheckCleanDryGB

Sganiwch y cod QR ar eich ffôn symudol

Department for Environment Food & Rural Affairs · Llywodraeth Cymru Welsh Government · natural scotland SCOTTISH GOVERNMENT · NNSS · RYA · The Green Blue · The Marine Biological Association · British Canoeing · British Rowing · Marine Pathways Managing marine non-native species

Lluniau gan: Cyfoeth Naturiol Cymru a GB NNSS



## Mae planhigion ac anifeiliaid ymosodol yn achosi difrod i gychod ac yn niweidio'r amgylchedd

## Peidiwch â'u helpu i ymledu ar eich cwch

**EDRYCH** **GOLCHI** **SYCHU**

# ATAL YR YMLEDIAD

**Mae planhigion ac anifeiliaid ymosodol o bob rhan o'r byd wedi eu cyflwyno'n ddamweiniol i ddyfroedd ym Mhrydain. Mae dros hanner cant o rywogaethau morol eisoes wedi eu canfod, ac mae'r niferoedd sy'n cyrraedd o'r newydd yn cynyddu'n gyflym.**


Maent yn achosi problemau amgylcheddol difrifol a all fod yn ddi-droi'n-ôl – gan gystadlu'n llwyddiannus yn erbyn bywyd gwyllt brodorol, achosi niwed i ecosystemau a lledaenu clefydau. Gallant hefyd achosi niwsans i berchnogion cychod drwy halogi arwynebau caled gan gynnwys cyrff cychod ac achosi difrod i gychod.

Gallant fod yn fychan ac anodd eu canfod felly mae'n hawdd iddynt ymledu ar gychod, offer a dillad tamp. **Cofiwch ddiogelu amgylchedd y môr a'r gweithgareddau a fwynhewch drwy gadw'ch offer yn rhydd o blanhigion ac anifeiliaid ymosodol.**

Mae hyd yn oed yn bwysicach **Edrych Golchi Sychu** os ydych chi'n mynd â'ch cwch dramor, i sicrhau nad ydych yn dod ag unrhyw blanhigion neu anifeiliaid yn ôl gyda chi.

**Sicrhewch fod popeth yn lân ac wedi cael eu sychu'n drylwyr cyn i chi eu defnyddio eto ar ôl dod adre.**

## Cofiwch edrych yn ofalus ar y mannau hyn



## EDRYCH

**Edrychwch** ar eich cychod, eich offer a'ch dillad ar ôl dod allan o'r dŵr gan chwilio am ddeunydd halogi neu ddeunydd planhigion. Tynnwch unrhyw beth y byddwch yn ei ddarganfod, a'i roi yn y bin. Dylech ail-roi deunydd gwrth-halogi yn flynyddol.

## GOLCHI

**Golchwch** bopeth yn drylwyr gyda dŵr croyw cyn gynted ag y gallwch, gan roi sylw i raffau, gwaelodion y cwch, ôl-gerbydau a mannau sy'n damp ac yn anodd mynd atynt. Golchwch eich angor a'r gadwyn cyn gadael angorfa.

## SYCHU

**Sychwch** – draeniwch ddŵr o bob rhan o'ch cwch a'r ôl-gerbyd, gan gynnwys y gwaelodion, cyn gadael y safle. Sychwch bopeth am gyhyd ag y gallwch cyn eu defnyddio yn rhywle arall.

Gallwch wneud cais am ddeunyddiau codi ymwybyddiaeth ynghylch Edrych Golchi Sychu ar gyfer eich clwb yn rhad ac am ddim o **nonnativespecies.org/checkcleandry**